**Cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i rannu â'r Pwyllgor ystadegau ar lefel y cyswllt rhwng Gyrfa Cymru a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Mae 91% o garfan ADY 2023 wedi cael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad. Mae hyn ar gyfer ysgolion arbennig a rhai prif ffrwd.

Mae 99.7% o garfan â datganiad neu gyfwerth 2023 mewn ysgolion prif ffrwd wedi rhyngweithio ag ymgynghorydd Gyrfa Cymru (un-i-un/cyswllt rhiant/presennol mewn adolygiad pontio/eiriolaeth/sesiwn grŵp).

Mae 90.4% o garfan â datganiad neu gyfwerth 2023 mewn ysgolion arbennig wedi rhyngweithio ag ymgynghorydd Gyrfa Cymru (un-i-un/cyswllt rhiant/presennol mewn adolygiad pontio/eiriolaeth/sesiwn grŵp).

| **Gweithgaredd** | **Medi 22 - Mehefin 23** | **Ebrill 23 - Mehefin 23** |
|---|---|---|
| Cyfweliadau | 29,932 | 6,838 |
| Sesiynau grŵp (ysgolion arbennig yn unig) | 23 o sesiynau gyda 154 yn bresennol | 6 sesiwn gyda 65 yn bresennol |
| Yn bresennol mewn adolygiadau pontio | 3,561 | 439 |
| Cysylltiadau rhieni | 14,736 | 3,173 |
| Cynlluniau Dysgu a Sgiliau | dros 500 | |
| Apiau Arbenigol | 93 | |
| Digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr (ysgolion arbennig yn unig) | 85 | 21 |

**Y Cefndir**

Mae gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn golygu bod ysgolion a Gyrfa Cymru yn gweithredu dwy system wrth i'r prosesau newydd gael eu cyflwyno'n raddol. Mae hyn wedi achosi peth dryswch ac mae rhywfaint o gamddealltwriaeth wedi bod ynghylch rôl Gyrfa Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i symud tuag at ddull gweithredu cyson, o fewn pob awdurdod lleol, mewn perthynas â chynllunio pontio/adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol.

**Cynnig Gyrfa Cymru ar gyfer 2022-23**

Mynd i Adolygiadau Pontio

Gan fod pobl ifanc ym mlynyddoedd 9, 12, 13 ac 14 wedi cadw eu datganiadau, parhaodd Gyrfa Cymru i ddarparu cymorth arweiniol, gan fynd i'r adolygiad blynyddol fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer AAA.

Er bod pobl ifanc ym mlynyddoedd 10 ac 11 â datganiadau wedi'u trosglwyddo i Gynlluniau Datblygu Unigol, cynhaliodd Gyrfa Cymru eu lefel o gefnogaeth a mynd i adolygiadau, pan wahoddwyd hwy i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd gyda'u cynlluniau pontio. Roedd angen iddynt flaenoriaethu'r rhai a fyddai'n gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11 a'r rhai sy'n aros ymlaen ond sydd ag anghenion cymhleth.

Cynlluniau Dysgu a Sgiliau
Parhaodd Cynghorwyr Gyrfaoedd i lunio Cynlluniau Dysgu a Sgiliau ar gyfer pobl ifanc ym mlynyddoedd 12-14 a oedd yn gadael yr ysgol i fynd i addysg bellach neu addysg uwch neu ddarpariaeth Twf Swyddi Cymru +.

Ceisiadau am gyllid
Ar gyfer pobl ifanc a oedd yn gadael blynyddoedd 12-14 ac angen lleoliad coleg arbenigol, parhaodd Cynghorwyr Gyrfaoedd i gasglu a chyflwyno ceisiadau am gyllid coleg arbenigol.

Ar gyfer y rhai a oedd yn gadael blwyddyn 11, darparodd Gyrfa Cymru arweiniad a chefnogaeth i'r bobl ifanc, eu teuluoedd ac, ar gais, staff ysgol/awdurdodau lleol gan mai'r awdurdod lleol fydd yn penderfynu a oes angen lleoliad arbenigol ac yn gwneud y cais am gyllid.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol
Wrth i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol fynd rhagddi bydd Gyrfa Cymru yn symud i fodel ledled Cymru lle bydd eu cynghorwyr ADY yn canolbwyntio ar bobl ifanc mewn ysgolion arbennig a bydd cynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion yn cefnogi'r rhai ag ADY sy'n cael darpariaeth brif ffrwd.